

Cydlynnydd Ymwelwyr y Gymdeithas

“Mae’n fraint bod yn wirfoddolwr i Gymdeithas MND. Y peth sydd yn rhoi’r boddhad mwyaf yw gwybod fy mod wedi helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaeth, y cyfarpar a’r cymorth sydd ei angen arnynt.” Jo-Ann, Gwirfoddolwr

Beth mae’n ei olygu?

Bydd Cydlynwyr Ymwelwyr y Gymdeithas yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â’u tîm o Ymwelwyr y Gymdeithas ac yn gweithio mewn partneriaeth â’r staff er mwyn:

- Datblygu tîm o Ymwelwyr y Gymdeithas yn eu hardal leol
- Cefnogi eu tîm o Ymwelwyr y Gymdeithas
- Cydlynu atgyfeiriadau a dyrannu Ymwelwyr y Gymdeithas i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND
- Cynnig a hwyluso cymorth a chyfarfodydd goruchwyllo

Bydd y rôl yma yn addas i mi:

- Os oes gennyf sgiliau gwranddo a chyfathrebu da
- Os wyf yn gallu gweithio’n dda gyda staff y Gymdeithas ac asiantaethau eraill
- Os nad wyf yn feirniadol ac yn parchu ffyrdd o fyw amrywiol
- Os wyf yn gallu gweithredu ar fy liwt fy hun
- Os oes gennyf sgiliau trefnu a chynllunio da
- Os oes gennyf sgiliau ysgogi a rhyngpersonol da
- Os oes gennyf brofiad o weithio gyda chyfrifiaduron
- Os wyf yn gallu asesu pryd mae angen cymorth ychwanegol
- Os wyf yn deall yr angen am gyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data



Sut ydw i yn elwa?

- Cyfle i ddefnyddio a/neu ddatblygu sgiliau mentora ac arweinyddiaeth
- Cael effaith gadarnhaol ar brofiad Ymwelwyr y Gymdeithas yn eu rôl

Pa fath o hyfforddiant/sefydlu fyddaf yn ei gael cyn dechrau?

Byddwch yn cael eich sefydlu yn y rôl. Fel rhan o hyn, byddwch yn cael sesiynau e-ddysgu, hyfforddiant wyneb yn wyneb a mentora.

Beth yw’r cam nesaf?

Mynegwch eich diddordeb neu gallwch gael mwy o wybodaeth trwy ebostio volunteering@mndassociation.org neu ffoniwch ni ar 01604 611681. Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau o bob cefndir a phob cymuned.